

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Mai 2020

Amser: 13.42 – 14.24

Preifat

Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---------------------|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Dawn Bowden AS (Cadeirydd) Huw Irranca-Davies AS Dai Lloyd AS David J Rowlands AS |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson (Clerc) Stephen Aldhouse (Ail Clerc) Gerallt Roberts (Dirprwy Clerc) Gareth Pembridge (Cynghorydd Cyfreithiol) Tom Lewis-White (Ymchwilydd) |

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod; nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.



- 1.3 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.20, dywedodd y Cadeirydd fod Comisiwn y Senedd wedi penderfynu ei bod yn anymarferol darlledu'r trafodion.
- 1.4 Cytunodd yr Aelodau y dylid apwyntio fel Huw Irranca-Davies AS fel Cadeirydd Dros Dro os digwydd i'r Cadeirydd fethu cadeirio o ganlyniad i anawsterau technegol.
- 1.5 Nododd y Cadeirydd mai dyma oedd cyfarfod olaf Stephen Aldhouse fel Ail Glerc, ac estynnodd ddiolch iddo am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor.

2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a chyfarfod nesaf y Pwyllgor

- 2.1 Derbyniwyd y cynnig.

3 Blaenraglen waith

- 3.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

4 Papurau i'w nodi

- 4.1 Nodwyd y papurau.